Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Gâr

Menter leol cafodd ei sefydlu yn 2011 ac sy'n darparu anrhegion Nadolig i deuluoedd mewn angen yw Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Gâr. Mae llawer yn methu fforddio prynu anrhegion na theganau i'w plant ac yn niffyg popeth arall byddant yn mynd at fenthycwyr didrwydded. Mae'r Apêl Teganau Nadolig wedi sicrhau bod plant lleol, a fyddai fel arall ond yn derbyn nifer bach iawn o anrhegion neu ddim anrhegion o gwbl, yn cael anrheg adeg y Nadolig.

Y llynedd, fe wnaethoch ein helpu i ddarparu dros 6,200 o anrhegion i 1,045 o blant ac ni fyddai wedi bod yn bosibl heb eich cefnogaeth CHI.

Eleni yn y cyfnod digynsail hwn rydym yn dibynnu ar eich cefnogaeth mwy nag erioed. Mae angen eich caredigrwydd, eich haelioni, a'ch llawenydd arnom unwaith yn rhagor.

Yn arferol rydym yn gofyn i chi naill ai gyfrannu teganau ac anrhegion neu roi cyfraniad ariannol. Eleni gyda'r sefyllfa fel y mae, gofynnir yn garedig i chi wneud cyfraniad ariannol. **Nid ydym yn derbyn teganau yn uniongyrchol er mwyn lleihau'r risg o deithio a mynychu adeiladau cyhoeddus.** Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu teganau ac anrhegion yn unig.

Os ydych mewn sefyllfa i allu helpu, a wnewch chi ddanfon siec yn daladwy i Gyngor Sir Gâr i'r Uned Cefnogi Busnes, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin. SA31 3HB.

Os oes gennych gyfraniad arian parod, ffoniwch 01267 246504 am gyngor.

DIOLCH YN FAWR IAWN

Carmarthenshire County Council's Christmas Toy Box Appeal

Founded in 2011, Carmarthenshire County Council's Christmas Toy Box Appeal is a local initiative which provides Christmas gifts for families in need. Many can't afford to buy gifts or toys for their children, and will go to loan sharks in desperation. The Christmas Toy Box Appeal has ensured that local children, who might otherwise receive nothing or very little, are given a gift at Christmas.

Last year, you helped us provide over 6,200 gifts to 1,045 children and it would not have been possible without YOUR support.

This year during these unprecedented times we rely on your support more than ever. We need your kindness, generosity, and joy once again.

We usually respectfully ask you to either donate toys and gifts or give a financial contribution. This year, in view of the current situation, we kindly ask you to make a financial contribution. **We are not accepting toy donations to reduce risks associated with travel and accessing public buildings.** The money will only be used to buy toys and gifts.

If you are in a position to help, please forward a cheque payable to Carmarthenshire County Council to the Business Support Unit, Building 2, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen. SA31 3HB.

If you have a cash contribution, telephone 01267 246504 for advice.

THANK YOU VERY MUCH